

Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau , 'Ardaloedd Menter: Mynd Ymhell?'

Mehedin 2018

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor am Ardaloedd Menter. Mae'n dda iawn bod y fenter bwysig hon yn destun craffu ac rwy'n falch hefyd fy mod i a Chadeiryddion Byrddau'r Ardaloedd Menter wedi cael rhoi tystiolaeth i helpu'r Pwyllgor â'i ymchwiliad.

Rwy'n ymfalchïo'n fawr yn llwyddiannau'r rhaglen Ardaloedd Menter hyd yn hyn o dan arweiniad y Byrddau. Mae llawer wedi'i gyflawni ers eu creu yn 2012, gyda thros 10,700 o swyddi'n wedi'u cefnogi hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2016/17. Rwy'n cydnabod bod cyflymder y cyflawni wedi amrywio o ardal i ardal ond mae'n bwysig deall bod man cychwyn pob ardal fenter yn wahanol a bod gan bob un ei chyfleoedd a'i heriau penodol. Mae'n amlwg wrth ddewis lleoliadau'r Ardaloedd Menter na wnaethon ni ddewis yr 'opsiwn rhwyddaf' bob tro na'r rheini oedd â'r potensial i lwyddo gyflymaf. Mae pob ardal fenter yn unigryw a gwahanol. Mae rhai o'r ardaloedd yn barotach nag eraill ar gyfer buddsoddi ynddyn nhw, mae rhai'n gallu manteisio ar gyfleoedd sy'n bod eisoes tra bo rhai o'r lleill yn canolbwyntio ar osod y sylfeini ar gyfer datblygu'r economi a busnesau yn y tymor hwy.

Mae'r Ardaloedd Menter wedi llwyddo i ysgogi datblygiad yr economi leol ac er iddyn nhw gael eu creu cyn llunio'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, ceir llawer o synergedd rhwng gwaith y Byrddau a phwyslais y cynllun ar ddatblygu cryfderau rhanbarthau Cymru. Rwy'n parhau i fonitro ac adolygu'r rhaglen a'r hyn y mae'n ei gynnig i fusnesau er mwyn iddi barhau i fod yn gystadleuol, rhoi gwerth ein harian inni a bod yn gyson ag amcanion y Llywodraeth.

Nodir Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Er na ddefnyddiwyd y Lwfansau Cyfalaf Uwch hyd yn hyn, gallant fod yn becyn deniadol. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Drysorlys EM ymestyn y lwfansau hyn am bum mlynedd arall a chefnogi'r ardaloedd i wneud y defnydd gorau o'r lwfansau hyn.

Ymateb: Derbyn

Rydyn ni'n credu y gallai Lwfansau Cyfalaf Uwch (ECA) fod yn erfyn defnyddiol fel rhan o becyn ehangach o fesurau i ddenu buddsoddwyr. Felly cawsom drafodaethau helaeth â'r Trysorlys a sicrhau eu bod ar gael yn nhair Ardal Fenter. Maen nhw wedi'u cyfyngu o ran amser ond rwyf newydd ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i ofyn am estyniad er mwyn inni allu parhau i'w hyrwyddo fel rhan o'r pecyn o gymhellion ar gyfer Ardaloedd Menter.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru edrych yn strategol ar yr eiddo masnachol a'r unedau diwydiannol sydd ar gael a gweithio gyda Llywodraeth Leol i sicrhau bod arian ar gael ar gyfer ardaloedd lle mae angen datblygu unedau addas.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi'n cydnabod bod angen safleoedd a chyfleusterau modern ar Gymru er mwyn i fusnesau allu ehangu a thyfu, a chyfeiria at ein bwriad i lunio cynllun cyflawni fydd yn canolbwyntio ar brosiectau blaenoriaeth rhanbarthol. Mae pob un o Fyrddau'r Ardaloedd Menter wedi dweud bod hyn yn flaenoriaeth ganddynt. Rwy'n cydnabod bod darparu adeiladau masnachol modern yn hanfodol i wneud Ardaloedd Menter Cymru yn gystadleuol ac mae camau breision wedi'u cymryd ynghylch y Grant Datblygu Eiddo i helpu cynlluniau datblygu eiddo mewn ardaloedd gwahanol. Rwyf wedi ymrwymo hefyd i ddarparu adeilad 50,000 tr sg yng Nglynebwy ac mae menter ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn i adeiladu unedau cychwyn ym Mhen-rhos newydd ei chyhoeddi.

Byddaf hefyd yn cysylltu â Banc Datblygu Cymru i holi a oes potensial ar gyfer "Cronfa Eiddo Masnachol" i helpu i ddatblygu rhagor o unedau yng Nghymru.

Un o agweddau mwyaf llwyddiannus y rhaglen Ardaloedd Menter yw'r ffordd y mae timau gwahanol yn Llywodraeth Cymru wedi dod ynghyd i roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith mawr mewn Ardaloedd Menter. Er enghraifft, buddsoddiadau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiadau band eang, seilwaith ffyrdd a seilwaith eiddo. Byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i Ardaloedd Menter wrth ddewis pa brosiectau datblygu eiddo i fuddsoddi ynddyn nhw a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gyflawni'n hamcanion a'n nodau.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiadau blynyddol ar yr Ardaloedd Menter, fel yr arferai ei wneud, a darparu data clir ar gyfer pob ardal. Dylai gynnwys dadansoddiad manwl o'r cymorth a roddwyd i gwmnïau a gefnogir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ganddi. Hefyd, dylid llunio adroddiadau mwy tryloyw am y buddsoddiad ym mhob un o'r Ardaloedd Menter, gyda data cywir ar gyfer buddsoddiad penodol yr Ardaloedd nad yw'n cynnwys gwariant ehangach Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydyn ni wedi bod yn paratoi adroddiadau blynyddol am Ardaloedd Menter a byddaf yn cynhyrchu ffigurau alldro blwyddyn ariannol 2017/18 cyn hir. Rwyf wrthi'n adolygu ac yn diweddarau'r wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi yn y dyfodol a byddaf yn ystyried barn y Pwyllgor yn hyn o beth.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu data blynyddol wedi'u dadgyfuno ar gyfer swyddi a grëwyd, a ddiogelwyd ac a gynorthwywyd ymhob ardal.

Ymateb: Derbyn

Roedd yn bleser cael rhoi data blynyddol wedi'u dadgyfuno i'r Pwyllgor am bob ardal yn gynharach eleni a byddaf yn parhau i gyhoeddi'r wybodaeth hon bob blwyddyn.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru wneud yn eglur beth yw ei blaenoriaethau ar gyfer yr Ardaloedd Menter, gan gyhoeddi targedau blynyddol clir, a dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymo i gyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig yn amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyllido, rolau a chyfnod gweithredol yr Ardaloedd Menter yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rwyf wedi gofyn i Gadeiryddion Byrddau'r Ardaloedd Menter weithio gyda'u haelodau a'm swyddogion i ddiweddarau'u Cynlluniau Strategol fel eu bod yn nodi'n blaenoriaethau a'n hamcanion ar gyfer 2018-2021 a'u cyhoeddi tuag at ddiwedd eu tymhorau cyfredol. Rwyf hefyd wedi gofyn i'm swyddogion gomisiynu adolygiad cynhwysfawr o raglen yr Ardaloedd Menter a bydd y gwaith hwnnw'n pennu cyfeiriad y rhaglen nesaf. Rwyf wrthi'n ystyried cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig arall pan fydd y gwaith hwnnw wedi'i wneud.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw ddull rhanbarthol o ran datblygu economaidd, ar gyfer bob rhanbarth unigol neu ardal leol: yn

glir a realistig; yn ddigon manwl i roi dealltwriaeth o'r heriau a wynebir; a bod data monitro manwl, agored, tryloyw a phriodol i'w cefnogi.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn rhoi llawer o bwyslais ar ddatblygu economaidd rhanbarthol a phwysigrwydd cydnabod ac ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau gwahanol ym mhob rhanbarth. Byddwn yn mynd ati mewn ffordd newydd i ddatblygu economïau rhanbarthol a bydd yn seiliedig ar yr egwyddor bod lleoedd yn bwysig ac y dylai manteision twf gael eu taenu'n fwy cyfartal ledled Cymru. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y rhanbarthau i wneud hyn mewn ffordd ystyrlon a thryloyw.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried ei bwriad arfaethedig i uno Byrddau Ynys Môn ac Eryri.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Cyhoeddais fy mwriad i uno'r ddau Fwrdd ryw bwynt ar ôl Gorffennaf 2018 oherwydd y synergeddau helaeth rhwng y ddau. Ond rwy'n ymwybodol hefyd bod angen cadw'r arbenigeddau sy'n berthnasol i'r ddwy ardal a rhoi sylw penodol i'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r ddwy. Rwyf wedi cael cyngor gan Gadeiryddion Byrddau Cynghori Ardaloedd Menter Ynys Môn ac Eryri a chyda'm swyddogion, byddan nhw'n ystyried priodoldeb ac amseriad uno'r ddau Fwrdd. Yr amcan yw sicrhau bod pethau'n newid yn esmwyth mewn ffordd sy'n bodloni anghenion y rhanbarth.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru osod cyfeiriad clir o ran beth y mae'n disgwyl i Fwrdd Ardal Fenter Port Talbot ei gyflawni, ac amserlen glir i'w wneud, fel y gellir dod â'r Bwrdd i ben pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

Ymateb: Derbyn

Rwyf wedi gofyn i Gadeirydd Bwrdd Glannau Port Talbot i gomisiynu darn o waith i ddatblygu Cynllun Strategol manwl ar gyfer yr Ardal fydd yn pennu cyfeiriad, amcanion a blaenoriaethau clir ar gyfer 2018-2021. Daw'r gwaith i ben ddiwedd yr haf a bydd yn cynnwys amserlen a cherrig milltir ar gyfer y Bwrdd. Byddaf yn ystyried a oes angen i'r Bwrdd gadw at yr amserlen, yn nes at ddiwedd ei thymor yn 2021.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r berthynas rhwng y cyfarwyddwyr rhanbarthol newydd sy'n arwain datblygu economaidd a'r Ardaloedd Menter, a'r gymuned fusnes mewn ardaloedd lle nad yw'r Byrddau bellach yn bodoli.

Ymateb: Derbyn

Mae gan Brif Swyddogion Rhanbarthol rôl glir iawn fel llefarydd y rhanbarth yn Llywodraeth Cymru ac fel llefarydd Llywodraeth Cymru yn y rhanbarthau. Yn rhinwedd y rôl honno, bydd gofyn iddyn nhw ddod â phartneriaid rhanbarthol ynghyd i nodi blaenoriaethau, rhoi arweiniad a chydlynu ac alinio o fewn y rhanbarth. Y nhw felly fydd y glud fydd yn rhwymo gweithgarwch datblygu economaidd ar lefel y rhanbarthau ynghyd ac maen nhw eisoes yn datblygu perthynas gref â'r gymuned fusnes, Ardaloedd Menter ac eraill yn y rhanbarthau. Os ydy Bwrdd yr Ardal Fenter yn newid, caiff y trefniadau i'w olynu eu hystyried yn ofalus a'u rhoi ar waith.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ymhle y caiff trefniadau llywodraethu eraill eu sefydlu (Glynebwy, Glannau Dyfrdwy), manylion llawn y ffordd y bydd y cyrff newydd yn gweithredu, sut y byddant yn parhau â gwaith Byrddau'r Ardaloedd Menter, a'r dyletswyddau gwahanol a fydd ganddynt.

Ymateb: Derbyn

Mae gwaith ar droed i greu trefniadau llywodraethu i oruchwylio a chefnogi menter y Cymoedd Technoleg yng Nglynebwy a phrosiect AMRI yng Nglannau Dyfrdwy. Hefyd, mae fy swyddogion yn ystyried cynigion gan Gyngor Blaenau Gwent ar gyfer sefydlu Bwrdd Menter o dan arweiniad yr awdurdod lleol fydd yn canolbwyntio mwy ar ardal Glynebwy. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau ynghylch trefniadau llywodraethu newydd pob un o'r prosiectau hyn maes o law.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni

Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport